

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
27 GORFFENAF 2022

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 28 Gorffennaf 2022.

YN BRESENNOL: Sally Ellis (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bernie Attridge, Glyn Banks, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst a Linda Thomas

Aelodau Cyfetholedig: y Parchedig Brian Harvey ac Allan Rainford

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Jean Davies

Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd Ian Roberts, (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden), y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Rheoli Risg a Gwilym Bury (Archwilio Cymru).

YN BRESENNOL: y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cryf), Prif Weithredwr (cofnodion rhif 17 - 19), Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Mike Whiteley o Archwilio Cymru

17. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

18. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2022, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Linda Thomas ac Andrew Parkhurst.

Cofnod Rhif 12 - Roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi rhannu pryderon y Pwyllgor mewn cyfarfod diweddar gyda'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion ynghylch camau gweithredu oedd heb gael sylw mewn adroddiadau sicrwydd coch. Cytunwyd ar nifer o gamau, yn cynnwys y posibilrwydd o wahodd yr uwch swyddog perthnasol i fynychu'r Pwyllgor i roi eglurhad ble bynnag yr oedd hynny'n briodol. Byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu gwahodd i gyfarfod â Thîm y Prif Swyddog eto i adolygu cynnydd.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

19. DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2021/22

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid Strategol Ddatganiad Cyfrifon Drafft 2021/22 (eto i'w harchwilio) er gwybodaeth yn unig am y tro. Roedd y rhain yn cynnwys cyfrifon y Grŵp a'i is-gwmnïau sydd mewn perchnogaeth lwyr, ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol fel y'i

adolygwyd yn y cyfarfod blaenorol. Unwaith eto byddai cyfnod ymgynghori agored yn ystod yr haf ar gyfer yr Aelodau er mwyn iddynt allu codi unrhyw agwedd ar y cyfrifon gyda swyddogion cyn i'r Pwyllgor dderbyn y fersiwn archwiliedig terfynol i'w gymeradwyo.

Cafwyd cyflwyniad ar y pryd ar y meysydd canlynol:

- Pwrpas y chefnidir y Cyfrifon
- Cynnwys a Throsolwg
- Cyfrifoldeb am y cyfrifon
- Cysylltiadau â Monitro'r Gyllideb
- Newidiadau i Ddatganiad Cyfrifon 2021/2
- Materion ac Effeithiau Allweddol
- COVID-19 – Cyllid Grant Argyfwng
- Penawdau – Cronfa'r Cyngor (Refeniw), Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn, Symudiadau Arwyddocaol, Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT)
- Grŵp Llywodraethu Cyfrifon
- Amserlen a'r Camau Nesaf

Cadarnhawyd bod y cyfrifon drafft wedi'u cwblhau a'u cyflwyno o fewn y terfyn amser a oedd wedi'i ymestyn gan Lywodraeth Cymru mewn cydnabyddiaeth o effeithiau'r pandemig. Roedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig terfynol wedi'i ymestyn tan 30 Tachwedd 2022.

Tynnodd Mike Whiteley sylw at y risg posibl cysylltiedig â gallu Archwilio Cymru i gwrdd â therfyn amser y Pwyllgor i gymeradwyo'r cyfrifon terfynol yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2022. Yng ngoleuni'r fframwaith estynedig a bennodd Llywodraeth Cymru a'r canllaw ar brisio asedau y disgwylir amdano o hyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gofynnodd am farn y Pwyllgor ynghylch cyflwyno'r cyfrifon terfynol er cymeradwyaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd neu bod yn dyddiad hwnnw'n cael ei ddwyn ymlaen er mwyn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i gymeradwyo'r cofnodion o fewn y terfyn amser diwygiedig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Glyn Banks am gyfraniadau ariannol i Theatr Clwyd, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y rhain yn ffurfio rhan o elfennau Cyllido Canolog a Chorfforaethol Monitro'r Gyllideb Refeniw. Ar ôl cael eglurhad gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) ar drefniadau adrodd sefydliadau partner allanol, cytunwyd y byddai'r swyddogion yn adolygu geiriad y cyfrifon terfynol i wahaniaethu'n glir rhwng y trefniadau ar gyfer Theatr Clwyd yn hytrach na NEW Homes a Newydd sy'n is-gwmnïau mewn meddiannaeth lwyr i'r Cyngor. Cafwyd awgrym gan y Cynghorydd Banks y gellid rhoi eglurhad byr o dan yr adran ar Gwmnïau Cysylltiol o fewn y ddogfen.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ar y cynnydd mewn cronfeydd heb eu clustnodi, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y cefndir ar lefel sylfaenol y cronfeydd wrth gefn a gynhelir i ddiogelu yn erbyn amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld, yn ychwanegol at y cronfeydd sydd ar hyn o bryd yn uwch na'r arfer oherwydd bod LIC yn hwyr yn rhoi gwybodaeth am grantiau. Siaradodd am bwysigrwydd diogelu cronfeydd wrth gefn i ddelio ag effeithiau anhysbys dyfarniadau cyflog a chynnydd

chwyddiannol. Wrth gymharu lefelau'r cronfeydd â chynghorau eraill, cyfeiriodd at adolygiad Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol sy'n cynnwys cymhariaeth o lefelau cronfeydd ar draws Cymru.

Wrth gyfeirio at gymhlethdod y Grant Caledi a rôl ranbarthol y Cyngor yn ystod y pandemig, anogodd y Cynghorydd Paul Johnson yr Aelodau i ystyried y ddogfen yn fanwl gan nodi maint heriau ariannol y dyfodol.

Gan gydnabod y rheoliadau cymhleth sy'n rhan o gynhyrchu'r cyfrifon, cododd Allan Rainford nifer o gwestiynau er mwyn cael eglurder ar y cronfeydd a glustnodwyd a'r trefniadau ar wahân ar gyfer cymeradwy cyfrifon y Cyngor Sir a Chronfa Bensiynau Clwyd. Nodwyd bod y cynnydd yn y cronfeydd yn ystod y pandemig yn 2020/21 wedi'i ddwyn ymlaen i'w ddefnyddio yn 2021/22 i gwblhau cynlluniau o fewn y Rhaglen Gyfalaf, heb unrhyw effaith ar y blynyddoedd i ddod wedi'i ragweld. Mae ymagwedd ddarbodus hirsefydlog y Cyngor o gynnal isafswm o 3% o gronfeydd wrth gefn yn golygu bod unrhyw beth dros hynny'n cael ei ystyried ar gyfer buddsoddiadau stoc yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cadarnhawyd bod ffioedd archwilio allanol ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol yn ymwneud â gwaith perfformiad gan Archwilio Cymru a rhoddwyd diweddariad ar yr ôl-ddyledion rhent presennol sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru. O ran y tanwariant diwedd y flwyddyn ar referniw Cronfa'r Cyngor, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oes unrhyw faterion gweithredol na pherfformiad arwyddocaol wedi cyfrannu ar y sefyllfa hon, fel y nodwyd yn y cyflwyniad. O ran atebolrwydd posibl yn y dyfodol, er enghraifft yswiriant, siaradodd am y gwahaniaeth rhwng cronfeydd wrth gefn ar gyfer costau nad oes modd eu rhagweld a chronfeydd sy'n cael eu neilltuo am resymau penodol fel cronfeydd wedi'u clustnodi.

Gofynnodd y Parchedig Brian Harvey a oes unrhyw waith yn cael ei wneud i asesu effeithlonrwydd y grantiau argyfwng allweddol a dderbyniwyd drwy'r Gronfa Galedi i gynorthwyo â champau ymateb i, ac adfer ar ôl y pandemig. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y cyllid argyfwng wedi effeithio'n arwyddocaol ar y sefyllfa ariannol derfynol o ran hawlio am bwysau costau ychwanegol o ganlyniad i'r ymateb i'r pandemig, yn cynnwys ad-daliadau ôl weithredol a cholled incwm ar draws y Cyngor. Siaradodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) am rôl y Pwyllgor Adfer mewn goruchwyllo cam adfer y pandemig. Cytunodd y byddai'n rhannu gwybodaeth am y gefnogaeth a dargedwyd at fusnesau a chymunedau lleol yn ystod y cyfnod.

O ran y strategaeth i gynyddu cronfeydd ysgolion, cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol at waith sydd ar y gweill i ddeall cynlluniau gwariant ysgolion dros y tymor canolig. Tra bod hyn yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, caiff diweddariad blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bydd yn cael ei roi gerbron y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Bernie Attridge, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod prisio asedau yn fater cenedlaethol a bod trafodaethau ar y gweill gydag Archwilio Cymru i ystyried yr ymdriniaeth orau ar gyfer Sir y Fflint. Dywedodd hefyd bod y tanwariant diwedd y flwyddyn wedi'i adrodd yn bennaf drwy Fonitro'r Gyllideb Refeniw yn y cyfnod cyn yr etholiad, ac

eithrio rhai grantiau yr cafwyd gwybod amdanynt yn hwyr. Atgoffodd y Pwyllgor bod y sefyllfa gadarnhaol yn bennaf o ganlyniad i grantiau unwaith yn unig a dderbyniwyd.

Pan holodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynghylch Cronfa Bensiynau Clwyd, rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol eglurhad ar y safonau adrodd ar wahân a ragnodir yng nghyfrifon y Cyngor. Cyfeiriodd hefyd at y cylch prisio Actiwaraidd gyda chanlyniad yr adolygiad diweddaraf i fod ar gael yn yr hydref.

Soniodd y Cynghorydd Parkhurst am nifer cynyddol yr uwch swyddogion sy'n cael tâl cydnabyddiaeth o dros £60,000 a chafodd wybod nad yw'r trothwy hwn wedi newid ers peth amser a bod hynny wedi arwain at gynnydd. Cafodd hefyd wybodaeth am y broses gynnal sy'n ymwneud â swyddogion yn cymryd dyletswyddau ychwanegol

Yn ystod y drafodaeth mynegodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor eu diolch i'r timau sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r cyfrifon ac i'r Grŵp Llywodraethu Cyfrifon am eu cyfraniadau pwysig. Cytunwyd y byddai dyddiad cyfarfod mis Tachwedd yn cael ei symud ymlaen er mwyn galluogi cymeradwyo a llofnodi'r cyfrifon o fewn y terfyn amser.

Cafodd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Glyn Banks.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi Datganiad Cyfrifon drafft 2021/22 (sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol); a
- (b) Bod yr Aelodau'n nodi'r cyfle i drafod unrhyw agwedd ar y Datganiad Cyfrifon Drafft gyda swyddogion neu Archwilio Cymru o fis Gorffennaf i fis Awst, cyn i'r fersiwn archwiliedig terfynol ddod yn ôl at y Pwyllgor i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd 2022.

20. GWYBODAETH ARIANNOL ATODOL I DDATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2021/22

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol y wybodaeth ariannol atodol sy'n cyd-fynd â Datganiad Cyfrifon drafft 2021/22, yn unol â'r cais a wnaed yn y Rhybudd o Gynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2013.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Allan Rainford, rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu), eglurhad ar y broses ar gyfer awdurdodi penodi staff ac ymgynghorwyr dros dro.

Gofynnodd y Cadeirydd am y cynnydd mewn gwariant ar staff dros dro a chymhariaeth â chynghorau eraill. Awgrymodd swyddogion mai problem recriwtio a chadw staff genedlaethol yw hon o bosib. Cytunwyd y dylid gofyn am ymateb gan y Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) a bod hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar e-bost.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'i eilio gan y Parch Brian Harvey.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

21. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AR REOLI'R TRYSORLYS CHWARTER 1 2022/23

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2021/22 i'w adolygu a'i argymhell i'r Cabinet. Rhannwyd diweddariad Chwarter 1 ar faterion yn ymwneud â Pholisi, Strategaeth ac Arferion Rheoli'r Trysorlys 2022/23 er gwybodaeth, ynghyd â'r cylch adrodd. Yn unol a'r broses arferol, byddai sesiwn hyfforddi ar gyfer yr holl aelodau'n cael ei threfnu ar gyfer mis Rhagfyr 2022 cyn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24

Rhodddwyd trosolwg o adrannau allweddol yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys effaith materion economaidd yn ystod y cyfnod. Roedd y diweddariad chwarterol cyntaf ar gyfer 2022/23 yn rhoi'r wybodaeth diweddaraaf am fuddsoddiadau ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau am doriadau i'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Croesawodd Allan Rainford yr ymdriniaeth o ran lleihau risg ar fuddsoddiadau a chafwyd gwybodaeth ar y strategaeth fuddsoddi a oedd yn blaenoriaethu hylifedd a diogelwch wrth arallgyfeirio a lledaenu risg, ar y cyd â chynghor gan Arlingclose.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurwyd bod Cynghorau eraill ar draws Cymru yn ymdrin â rheoli'r trysorlys mewn ffordd debyg gan ganolbwyntio ar fenthycu tymor byr.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Attridge ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Linda Thomas.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol drafft 2020/21, heb unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r Cabinet ym mis Medi; a
- (b) Nodi diweddariad chwarter cyntaf Rheoli'r Trysorlys 2022/23.

22. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Dim.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.40pm

.....
Cadeirydd